



Cytundebau peidio â datgelu

26 Ionawr 2022

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Rhagfyr, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

- 1. I would like to know how many non-disclosure agreements have been concluded by Members of the Senedd (previously Assembly Members) with former members of their staff since 2011.*
- 2. Could you please break the information down by the employing Members political group affiliation and include any amounts by year.*

Mae ein hymateb i'ch cwestiynau isod.

- 1. I would like to know how many non-disclosure agreements have been concluded by Members of the Senedd (previously Assembly Members) with former members of their staff since 2011.*

Mae 14 o staff cymorth wedi ymrwymo i gytundebau peidio â datgelu (y cyfeirir atynt bellach fel cytundebau setlo) ers 2011. Sylwch nad oes gennym gofnod o gytundebau a wnaed cyn 2013.

- 2. Could you please break the information down by the employing Members political group affiliation and include any amounts by year.*

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth rydych yn gofyn amdani. Nid ydym am ddatgelu'r wybodaeth yn llawn, fodd bynnag, gan ei bod wedi'i heithrio rhag cael ei

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

datgelu o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae dau eithriad yn berthnasol sef, yn gwyno:

- adran 40 - datgelu data personol a fyddai'n torri Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y Deyrnas Unedig ; ac
- adran 41 - mae'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol.

Mae rhagor o fanylion am yr eithriadau rydym wedi'u cymhwyso, a'r rhesymau dros wneud hynny, i'w gweld yn yr [Atodiad](#) i'r llythyr hwn.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydym wedi nodi ffigurau sy'n dangos y cyfanswm ar gyfer y cyfnod dan sylw, ac wedi dangos y ffigurau ar gyfer y gwahanol grwpiau yn y Senedd roedd yr Aelodau perthnasol yn ymlynu wrthynt. Nid ydym wedi gallu nodi'r cyfanswm a dalwyd mewn perthynas ag Aelodau Annibynnol oherwydd, pe baem yn gwneud hynny, byddai modd adnabod yr unigolion dan sylw a byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

Cyfnod	Senedd Cymru	Cyfanswm a Dalwyd (*)
2013-2022	Llafur	£63,949.83
2013-2022	Ceidwadwyr	£ 9,388.80
2013-2022	Plaid Cymru	£35,585.00
2013-2022	UKIP	£22,859.00

* Mae'r ffigurau'n cynnwys yr holl daliadau cytundebol fel tâl gwyliau a gronnwyd ond na chawsant eu cymryd a thâl yn lle gweithio cyfnod o rybudd.

Yn gywir

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Atodiad

Adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth: byddai datgelu data personol yn torri Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU

Mae'r diffiniad o ddata personol wedi'i nodi yn Erthygl 4 o GDPR y DU, sef:

"any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person".

Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i rywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, a hynny oherwydd y byddai datgelu'r wybodaeth yn unol â'r cais yn golygu y byddai'n bosibl adnabod rhai unigolion. Pe bai modd eu hadnabod, byddem yn datgelu gwybodaeth bersonol benodol yn ymwneud ag unrhyw gytundeb y maent wedi ymrwymo iddo.

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) a 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mewn achosion lle byddai ei datgelu yn mynd yn groes i o leiaf un o'r egwyddorion diogelu data yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y'i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU, yn nodi:

"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')".

Wrth asesu a fyddai'n deg datgelu'r wybodaeth dan sylw, rydym wedi ystyried canlyniadau hynny, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau hwy ac unrhyw fudd dilys a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth.

Mae staff cymorth yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Aelod o'r Senedd a'r Aelod unigol sy'n ymdrin â diswyddiadau oni bai y ceisir cyngor gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Gall materion cyflogaeth, yn enwedig achosion o ddiswyddo, fod yn hynod sensitif a gofidus i'r rhai sydd ynghlwm wrth yr achosion hynny. Gan hynny, mae achosion o'r fath, yn eu hanfod, yn breifat eu natur.

Pan fydd cytundeb setlo yn cael ei drafod, caiff gwybodaeth ei phrosesu ar sail cyfrinachedd a'r gred na chaiff ei datgelu. Gan hynny, byddai'n rhesymol i'r unigolion dan sylw ddisgwyl na fydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys manylion y tâl a gawsant fel rhan o gytundeb o'r fath. Byddai datgelu gwybodaeth ar y ffurf y gofynnwyd amdano yn arwain at ddatgelu data personol, yn enwedig manylion penodol yn ymwneud â chytundebau setlo unigol a fyddai, o'u cyfuno â gwybodaeth arall, yn cael eu defnyddio i adnabod unigolion penodol.

Er gwaethaf fy marn ynghylch sicrhau tegwch, euthum ymlaen i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid oes yr un o'r seiliau cyfreithiol yn Erthygl 6 yn gymwys, heblaw am Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i ddata personol gael eu prosesu ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd cyhoeddus dilys;
- rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd; ac
- ni ddylai'r datgeliad ddiystyru buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid gwrthrychau'r data.

O ran rhan gyntaf y prawf, mae budd cyhoeddus dilys mewn tryloywder ac atebolrwydd yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oes angen datgelu gwybodaeth bersonol er mwyn bodloni'r budd dilys hwnnw. Caiff y budd hwnnw ei fodloni yn yr achos penodol hwn drwy ddatgelu ffigurau cyffredinol, wedi'u dadansoddi'n ôl y grwpiau yn y Senedd roedd gan yr Aelodau dan sylw ymlyniad wrthynt.

Wrth bwysu a mesur, rydym hefyd o'r farn nad yw'r budd dilys mewn datgelu'r wybodaeth yn drech na buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrychau'r data. Fel yr amlinellwyd uchod mewn perthynas â thegwch, byddai'n rhesymol i wrthrychau'r data ddisgwyl na fyddai eu data personol yn cael eu cyhoeddi, yn enwedig o gofio nad ydynt, yn eu swyddi, yn ymdrin yn uniongyrchol â'r cyhoedd a bod cyfrinachedd yn sail i drafodaethau ynghylch cytundebau setlo. Gallai datgelu gwybodaeth yn groes i'r disgwyliad hwnnw beri gofid diangen iddynt, neu ofid na fyddai modd ei gyfiawnhau, a gallai hefyd niweidio'r ymddiriedaeth sydd ganddynt yng Nghomisiwn y Senedd o ran y modd y byddwn yn trin eu data personol.

Yn wahanol i'w cyflogwr, nid yw staff cymorth Aelodau o'r Senedd yn ymdrin â'r cyhoedd fel rhan o'u swydd. Gan hynny, mae ganddynt ddisgwyliadau gwahanol o ran atebolrwydd a chraffu cyhoeddus. Sut bynnag, cânt eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Aelod o'r Senedd ac ni fyddent yn disgwyl i Gomisiwn y Senedd ddatgelu eu gwybodaeth. Er bod yn rhaid i Aelodau o'r Senedd, fel cynrychiolwyr etholedig, ddisgwyl y byddant yn destun lefel uwch o graffu, nid yw hyn, yn ein barn ni, yn drech na'r budd cyhoeddus mewn diogelu buddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrychau eraill y data.

Gan hynny, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r sail gyfreithlon o dan Erthygl 6(1)(f) o GDPR y DU ar gael i ni er mwyn datgelu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r wybodaeth yn ymwneud â'ch cais a hybu atebolrwydd, rydym wedi darparu ffigurau sy'n dangos cyfansymiau yn ôl y grwpiau roedd gan yr Aelodau dan sylw ymlyniad wrthynt.

Adran 41 Deddf Rhyddid Gwybodaeth: gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol

Mae adran 41 yn nodi bod gwybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu os gall hynny arwain at achos cyfreithiol am dorri amodau cyfrinachedd. Dywed:

"Information is exempt information if—

- a) it was obtained by the public authority from any other person (including another public authority), and
- b) the disclosure of the information to the public (otherwise than under this Act) by the public authority holding it would constitute a breach of confidence actionable by that or any other person..."

Mae'r eithriad hwn yn addasu'r hawl i weld gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gyfeirio at yr achosion a gyflwynwyd o dan y gyfraith gyffredin am dorri amodau cyfrinachedd. Yn ôl yr achos hwnnw, os oes dyletswydd ar berson sy'n cadw gwybodaeth i gadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol ('dyletswydd cyfrinachedd'), bydd yn torri amodau cyfrinachedd os yw'n datgelu'r wybodaeth heb awdurdod, ac mae hynny'n cynnwys datgelu'r wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gall dyletswydd cyfrinachedd godi oherwydd natur gyfrinachol y wybodaeth ei hun neu'r modd y cafwyd y wybodaeth. Cafodd rhywfaint o'r wybodaeth a gafwyd ei darparu'n gyfrinachol gan drydydd partion. Bydd cytundebau setlo'n cael eu trafod a'u cytuno ar sail cyfrinachedd a'r gred na chaiff gwybodaeth ei datgelu. Byddai datgelu manylion

penodol yn ymwneud â thelerau'r cytundebau hynny yn gyfystyr â thorri amodau cyfrinachedd mewn modd a allai arwain at achos cyfreithiol.

Mae telerau'r eithriad hwn yn golygu bod angen penderfynu a ellid amddiffyn penderfyniad i dorri amodau cyfrinachedd ar sail budd y cyhoedd. Rydym wedi gwneud hynny ac wedi penderfynu bod y budd i'r cyhoedd sydd ynghlwm wrth gadw gwybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd a fyddai ynghlwm wrth ei datgelu. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod ein trafodaethau:

- Mae sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o fudd cyffredinol i'r cyhoedd.
- Fodd bynnag, mae diogelu cyfrinachedd, fel egwyddor, hefyd o fudd ehangach i'r cyhoedd, ac mae hefyd angen ystyried effaith datgelu gwybodaeth ar yr ymddiriedydd a phartïon eraill yr effeithir arnynt;
- Pe bai unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu, byddai'n debygol o danseilio'r ymddiriedaeth rhwng Comisiwn y Senedd a'r trydydd partïon hynny a ddarparodd y wybodaeth iddo. Mae'n angenrheidiol cynnal ymddiriedaeth a sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n rhydd er mwyn caniatáu i Gomisiwn y Senedd gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd, gan gynnwys rhoi cyngor pan fo hynny'n briodol.